

Adroddiad Blynyddol 2007 ar Gydraddoldeb Hiliol

Adroddiad i'r Cyngor ar Weithredu Polisi'r Brifysgol ar Gydraddoldeb Hiliol – Mai 2007

1. Y Cyd-destun

- (i) Dyma'r pumed Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb Hiliol sydd wedi'i gyflwyno i'r Cyngor yn dilyn mabwysiadu Polisi a Chynllun Gweithredu Prifysgol Cymru, Aberystwyth (PCA) ynghylch Cydraddoldeb Hiliol yn 2003 a'r diweddaru fu arno yn 2006. Ynndo, fe asesir effaith y Polisi a'r Cynllun Gweithredu yn ystod y 12 mis blaenorol fel rhan o ddyletswyddau PCA o dan **Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000**.
- (ii) Yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb (y Rheolwr Adnoddau Dynol (Cyfle Cyfartal) gynt), gan ymgynghori ag amrywiol Swyddogion PCA a Chadeirydd/aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb sydd wedi llunio adroddiad 2007. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, caiff yr adroddiad ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2007 a bydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg fel dogfen gyhoeddus drwy'r wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb yn <http://www.aber.ac.uk/cy/equal-opps> neu drwy'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn yr Adran Adnoddau Dynol. Mae pob Adroddiad Blynyddol blaenorol ar Gydraddoldeb Hiliol o 2003 ymlaen hefyd ar gael drwy'r wefan uchod. Caiff yr adroddiad, ynghyd â'n Polisi a'n Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol, hefyd ei anfon i Gyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru (CCAUC) yng Ngorffennaf 2007.
- (iii) Yn ystod mis Hydref 2006, fe ofynnodd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol am gael copi o Adroddiad Blynyddol 2006 PCA ar Gydraddoldeb Hiliol er mwyn iddo adolygu'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio). Yr un pryd, comisiynodd CCAUC Bartneriaeth Gus John i adolygu'r holl bolisiâu sefydliadol ar gydraddoldeb hiliol yng Nghymru a'u hadroddiadau cysylltiedig. Bu i'r adolygiad gynnwys ymweld â PCA ym mis Rhagfyr 2006. Cyflwynwyd yr adborth o adolygiad CCAUC mewn adroddiad, ac fe drafodwyd yr adroddiad ymhellach gyda holl Sefydliadau Cymru mewn seminar ym mis Mai 2006 i werthuso ac adolygu polisiâu cydraddoldeb hiliol ac adborth traws-sectorol. Fe amlinellir yr argymhellion yn Adran 2 (vi), *Statws y Polisi a'r Cynllun Gweithredu ac Asesiad Effaith*, isod.
- (iv) Fel y nodwyd yn yr adroddiadau blaenorol, mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar PCA (1) i ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon; (2) i hybu cyfle cyfartal; a (3) i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol. Mae'r dyletswyddau hynny'n ymrwymo'r Brifysgol yn gyfreithiol fel corff corfforaethol a hefyd yn rhwymo aelodau unigol o'r Cyngor, y staff a'r myfyrwyr. Fel rhan o'i dyletswyddau penodol o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio), mae PCA yn deall yn llawn yn angen i wneud hyn:
- gweithredu ei Pholisi a'i Chynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol;
 - asesu effaith ei pholisiâu (gan gynnwys y Polisi Cydraddoldeb Hiliol) ar fyfyrwyr a staff o grwpiau hiliol gwahanol;
 - monitro'r broses o dderbyn myfyrwyr a'u cynnydd, a denu a chadw staff o grwpiau hiliol gwahanol, a chynnydd eu gyrfa;
 - cyhoeddi canlyniadau blynyddol yr asesu a'r monitro (fel yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ar Gydraddoldeb Hiliol).
- (v) Yn ogystal, fe gyhoeddodd PCA ei Chynllun Cydraddoldeb Anabledd newydd ym mis Rhagfyr 2006 a'i Chynllun Cydraddoldeb Rhywedd yn Ebrill 2007, ynghyd â'i Chynlluniau Gweithredu cysylltiedig ar ôl cyflawni'r prosesau ymgynghori a oedd yn ofynnol. Mae hi hefyd wedi cyhoeddi datganiad ynglŷn â'r Ddeddfwriaeth newydd

ynghylch Oedran a ddaeth i rym ym mis Hydref 2006. Mae PCA hefyd wedi cychwyn ar ei Hymarfer i Asesu Effaith Cydraddoldeb ac wedi darparu ei rhaglen hyfforddi fwyaf eto ym maes Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb.

Crynodeb: *Dyma'r pumed Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb Hiliol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Mae CCAUC a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol wedi asesu rhwymedigaethau PCA o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.*

2. Statws y Polisi a'r Cynllun Gweithredu ac Asesiad Effaith

- (i) Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) yn ei gwneud hi'n ofynnol i PCA (fel corff cyhoeddus) asesu effaith ei Pholisi a'i Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i ganfod a yw ei pholisïau a'i gweithdrefnau'n cael effaith wahanol ar wahanol grwpiau ethnig er mwyn i hynny helpu i ganfod anghydraddoldebau posibl, helpu i osgoi gwahaniaethu, a helpu i ddatblygu'r polisi a chynyddu tryloywder.
- (ii) Cychwynnodd ymarfer Asesu Effaith Cydraddoldeb PCA ym mis Rhagfyr 2006 wedi i'r Cyngor ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2006, ac mae'n cynnwys cydraddoldeb hiliol fel llinyn wrth asesu'r effaith. Hyd yn hyn, mae deunydd canllaw a dau sesiwn hyfforddi wedi'u darparu i Benaethiaid Canolog Adrannau/Is-Adrannau, a darperir dau sesiwn hyfforddi pellach i Benaethiaid Adrannau ym mis Mehefin 2007. Ar hyn o bryd, fe goladir llinynnau polisi'r sefydliad er mwyn gofyn i'r rhai sy'n gyfrifol am y polisïau unigol weld a yw eu polisïau'n cael unrhyw effaith andwyol, a chyflwyno'u darganfyddion ynghyd â'r polisïau, i'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb. Y bwriad yw i'r broses gychwynnol honno gael ei chwblhau erbyn Awst 2007 ac yna lunio adroddiad a fydd yn adolygu'r canlyniad ac yn nodi pa bolisïau y mae angen gwneud asesiad llawn o'u heffaith.
- (iii) Cynhelir yr ymarfer Asesu Effaith Cydraddoldeb ochr yn ochr â rhaglen hyfforddi ar Gyfle Cyfartal ac Amrywioldeb i uwch-aelodau o'r staff. Rhoddodd hyfforddwr allanol Hyfforddiant Denu a Dewis i Benaethiaid Adran, y Cyngor ac Uwch-Reolwyr eraill ym mis Mawrth 2007. Bwriedir cynnal sesiwn hyfforddi arall tebyg ym Mehefin 2007. Fel rhan o strategaeth hyfforddi PCA, caiff peilot o raglen e-ddysgu ddwyieithog ar amrywioldeb ei gynnal cyn hir gan i'r rhaglen gael ei throsi i'r Gymraeg yn ddiweddar er mwyn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg PCA 2003.
- (iv) Fel y dywedwyd yn Adroddiad Blynyddol 2007 ar Gydraddoldeb Hiliol, bu i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, ar ôl iddo werthuso'i gynllun blaenorol ar gyfer 2003-06, ddiweddarau Cynllun Gweithredu newydd ar Gydraddoldeb Hiliol a'i roi ar waith ym mis Mai 2006. Bu i PCA hefyd ddiweddarau ei Pholisi ar Gydraddoldeb Hiliol ym mis Gorffennaf 2006 ac fe gymeradwyodd y Cyngor y ddwy ddogfen yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf 2006.
- (v) Yn ystod Rhagfyr 2006, cyfarfu Partneriaeth Gus John â dau o Ddirprwy Is-Gangellorion PCA a'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb i drafod y cynnydd a wnaed o ran gweithredu a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Rhan o'r adolygiad oedd astudio'r polisïau, y cynlluniau gweithredu a'r adroddiadau monitro cydraddoldeb hiliol am y cyfnod 2002-2006. Meddai'r adroddiad:

“...progress between 2002 and 2006 demonstrate[s] clear evidence of progression and refinement both in the level of understanding of the requirements of the Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 and in the construction and implementation of the race equality policy and action plan. The University is explicit in its articulation of its role in combating discrimination and promoting equity in society and of the race equality goals and anti-racist principles that govern its practice. It is encouraging to see so many examples of good practice and of the pursuit of race equality becoming organic to the way the PCA functions, demonstrating that the University has become much better at using the results of monitoring and impact assessment to improve performance”.
- (vi) Awgrymwyd amryw o argymhellion yn yr adroddiad, a dyma grynodeb ohonynt:

- bod PCA yn canmol y rhai ymhlith ei staff, ei phartneriaid a'i myfyrwyr a fu'n gyfrifol am y cynnydd sylweddol y mae hi wedi'i wneud o ran gweithredu'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) a hybu cydraddoldeb hiliol yn ystod y cyfnod dan sylw, o gofio'r cynnydd y mae hi wedi'i wneud ers y gwerthusiad gwreiddiol gan yr Uned Herio Cydraddoldeb yn 2003;
 - ychwanegu, at yr adolygiad nesaf o bolisi a chynllun gweithredu PCA, ragymadrodd sy'n manylu ar y cefndir demograffig, yr ardal a'r partneriaethau y mae PCA yn gweithredu ynddynt a chynnwys hefyd ddata ar gyfansoddiad ei holl staff a myfyrwyr yn ôl eu hil yn ogystal ag yn ôl llinynnau eraill o gydraddoldeb;
 - bod PCA yn rhoi rhagor o ystyriaeth i drydydd llinyn y Ddyletswydd Gyffredinol, h.y. hybu perthynas dda rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol;
 - ystyried swyddogaethau'r Campws a Phreswyl (fel swyddogaeth ynddi'i hun) a datblygu cwricwlwm cynhwysol drwy gyfrwng y Cwricwlwm, Dysgu ac Addysgu, ac Asesu;
 - adolygu'r posibilrwydd o sefydlu Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb ym mhob adran i helpu i brif-ffrydio cydraddoldeb hiliol yn ogystal â llinynnau eraill o gydraddoldeb, a hefyd adolygu'r ffordd y mae cydraddoldeb hiliol yn cysylltu â meysydd eraill yn y ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb a hawliau dynol;
 - ystyried casglu data am gyrchfannau graddedigion croenddu a graddedigion o leiafrifoedd ethnig, ac adolygu'r mesurau sy'n cynorthwyo myfyrwyr croenwyn a myfyrwyr a staff sy'n dod o dramor ac sy'n groenddu/o leiafrifoedd ethnig fel rhanddeiliaid allweddol;
 - ailystyried y protocolau ynghylch contractau a phrynu gwasanaethau a hefyd roi gorolwg dadansoddol wrth adolygu polisïau a chynlluniau wedi hynny.
- (vii) O ganlyniad i'r gwerthusiad hwnnw, mae PCA wedi trafod ac ystyried yr argymhellion ac wedi ceisio ymgorffori rhai o'r gweithgareddau a'r gofynion yn ei phroses o fonitro ac adrodd. Er enghraifft, mae PCA wedi cynnwys mecanweithiau monitro cadarnach yn adroddiad eleni; mae hi wrthi'n adolygu ei gweithgarwch ynglŷn â thrydydd llinyn y ddyletswydd gyffredinol a phrotocolau ei gwasanaeth pwrkasu.
- (viii) O ganlyniad i adolygiadau Partneriaeth Gus John a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, aeth yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb i seminar a drefnwyd ac a gynhaliwyd gan CCAUC ym mis Mai 2007 i werthuso ac adolygu polisïau cydraddoldeb hiliol ac adborth traws-sectorol. Yn ystod y Seminar, bu i'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol hefyd ddosbarthu eu darganfyddion drafft i'w hystyried mewn adroddiad o dan y teitl 'Progress by HEI's in Wales in implementing their race equality duties'. Casgliad yr adroddiad yw nad yw sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn cydymffurfio eto â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, ond mae'n ychwanegu hefyd fod gwendidau allweddol wedi'u nodi a bod ymrwymiad i roi sylw iddynt.
- (ix) Mae PCA yn dal i hyrwyddo diwylliant o gydraddoldeb ac i ymgorffori arfer da mewn perthynas â chydaddoldeb hiliol. Fel yn yr adroddiadau blaenorol, nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos y gallai polisïau a gweithdrefnau PCA effeithio ar wahanol grwpiau hiliol.

Crynodeb: *Y Cyngor i nodi bod Partneriaeth Gus John wedi canmol y staff am y cynnydd sylweddol a wnaed wrth weithredu'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) a hybu cydraddoldeb hiliol, ac y gall fod angen i PCA ymateb i adroddiad drafft y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Hefyd, bod ymarfer Asesu Effaith Cydraddoldeb, ynghyd â rhaglen hyfforddi ynghylch Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, yn cael eu cyflwyno.*

3. Ymgorffori a Phrif-ffrydio Cydraddoldeb Hiliol

Gwefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb:

- (i) Mae gwefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb PCA wedi'i diweddarau sawl tro yn ystod 2006-07 i gynnwys Cynllun Cydraddoldeb newydd PCA ynghylch Anabledd a Rhywedd. Mae fersiwn diweddarach o Adroddiad PCA ar Gydraddoldeb Hiliol, ei Chynllun Gweithredu newydd (Mai 2006-09) ac Adroddiad Blynyddol 2006 ar Gydraddoldeb Hiliol hefyd i'w gweld, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar y tudalennau hynny ar y we.
- (ii) Mae pob Polisi Cydraddoldeb hefyd ar gael ar dudalennau Adnoddau Dynol ar y we, <http://www.aber.ac.uk/human-resources/cy/> o dan 'Telerau ac Amodau / Polisiau a Gweithdrefnau'.

Digwyddiadau Rhwydweithio:

- (iii) Cynhaliwyd y digwyddiadau rhyngweithio canlynol ynghylch cydraddoldeb hiliol yn ystod 2006-07:

Mehefin 2006 Medi 2006 Mawrth 2007	Bu'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb mewn 3 chyfarfod allanol, a gawsai eu trefnu gan Heddlu Dyfed-Powys, o Grŵp Cydraddoldeb Cyflwyno Gwasanaeth Ceredigion. Cynhaliwyd dau o'r cyfarfodydd yn PCA ac un mewn mosg lleol. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cymunedau Pwylaidd a Mwslim lleol, o Fyfirwyr Rhyngwladol yn ogystal ag o Urdd y Myfirwyr, LGBT, Hawliau Anabledd, Cymorth i Fenywod, y Rhwydwaith Aflonyddu, Age Concern, Myfirwyr 6ed Dosbarth a Chymorth i Ddiodefwyr. Mae monitro materion hil a chrefydd/credo (yn ogystal â llinynnau eraill cydraddoldeb) yn destun adroddiadau ac fe gaiff ei drafod ym mhob cyfarfod. Mae'r grŵp hwn yn ymwybodol o bolisiau, cynlluniau gweithredu a chyfrifoldebau adrodd PCA ynghylch cydraddoldeb hiliol.
Medi 2006	Fel yn y blynyddoedd blaenorol, bu'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn bresennol yn ffair y Glasfyfirwyr ac yn rhwydweithio ag amrywiol grwpiau, gan gynnwys y Swyddogion Sabothol newydd a oedd yn bresennol.
Ionawr 2007	Trefnodd Urdd y Myfirwyr Wythnos Un Byd i fawrygu amrywioldeb a gwahaniaethau diwylliannol. Cynhaliwyd digwyddiadau bob dydd, gan gynnwys gwersi iaith, ffilm, amrywiol stondinau mudiadau rhyddhau, a Noson Un Byd pryd y codwyd arian ar gyfer pentref yn Affrica.
Chwefror 2007	Gŵyl Blwyddyn Newydd y Tsieineaidd – cynhaliwyd dathliadau Blwyddyn Newydd drwy gydlyn â myfirwyr Tsieineaidd, Urdd y Myfirwyr a rhaglen Canolfan y Celfyddydau. Cafwyd penwythnos o weithgareddau, fel seremoni agor, arddangosfa o Gelfyddyd Tsieineaidd, crefftau a pherfformiadau, crefft ymladd, bwyd Tsieineaidd, cerddoriaeth, perfformiadau, ffilmiau a than gwylt.
Ebrill 2007	Yn y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd o grŵp trafod Astudiaethau Affricanaidd, fe drafodwyd ideolegau Affricanaidd fel negroaeth, ubuntu, ujamaa, ymwybodolrwydd pobl groenddu ac ymwybodoedd. Daeth amrywiaeth o staff a myfirwyr i'r digwyddiad rhwydweithio hwn, a'r bwriad yw i'r cyfarfod nesaf ar yr amserlen drafod diwylliannau Affrica a Chymru.
Mai 2007	Aeth yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb i Seminar Traws-Sectorol yng Nghaerdydd. Yno hefyd yr oedd cynrychiolwyr o Bartneriaeth Gus John, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, yr Uned Herio Cydraddoldeb, CCAUC, Addysg Uwch Cymru ac Undebau a'r mwyafrif o sefydliadau addysg uwch Cymru.

- (iv) Rhoddodd Swyddog Amrywiaeth a Datblygu Urdd y Myfyrwyr wybod am y canlynol:
 - a) trefnu Cyfarfodydd o Leiafrifoedd Ethnig bob deufis er mwyn i fyfyrwyr allu rhwydweithio a thrafod unrhyw fater sy'n codi;
 - b) sefydlu Cymdeithas Myfyrwyr Rhyngwladol yn ddiweddar er mwyn i fyfyrwyr rhyngwladol allu cyfarfod a threfnu teithiau a digwyddiadau cymdeithasol yn rheolaidd;
 - c) rhedeg 'Ymgyrch Dileu Troseddu ar sail Casineb' (a gynhwysai gasineb rhwng hiliau) i hybu ymwybyddiaeth o'r math hwnnw o droseddu a dweud wrth fyfyrwyr sut mae rhoi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath.
- (v) Mewn perthynas ag eitem (iv) c uchod, mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi dosbarthu pecynnau hysbysu dienw 'Gweledigaeth Newydd' Heddlu Dyfed-Powys i'r personél perthnasol yn PCA ac i'r rhwydwaith aflonyddu.
- (vi) Mae PCA yn dal i rwydweithio â'r Uned Her Cydraddoldeb (yr ECU) ac yn cyson ledaenu i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb y wybodaeth a gaiff ganddi. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb hefyd yn cymryd rhan yn rhagweithiol yng ngrŵp cyswllt Cymru-gyfan yr ECU – grŵp sy'n cynnwys cynrychiolwyr o CCAUC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Sefydliadau eraill yng Nghymru.
- (vii) Yn fewnol, mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn dal i gysylltu ag Urdd y Myfyrwyr ynghylch materion cydraddoldeb hiliol ac yn rhoi hyfforddiant cydraddoldeb yn flynyddol i reolwyr a swyddogion sabothol ar faterion cydraddoldeb, gan gynnwys hil. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb hefyd yn dal i roi gwybod i reolwyr am eu dyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol ym meysydd eu gwaith.
- (viii) Mae Partneriaeth Ehangu Mynediad Gorllewin a Chanolbarth Cymru, y mae PCA yn bartner arweiniol ynddi, yn dal i gynnwys aelodaeth o gymunedau o leiafrifoedd ethnig yn un o feini prawf cael ymuno â'i gweithgareddau. Mae'n dal i dargedu pobl o gymunedau'r Sipsiwn Romani yn Sir Benfro i'w hannog i gael addysg neu hyfforddiant. Mae hi hefyd wedi datblygu amrywiaeth o gysylltiadau arbenigol i gynyddu proffil y rhaglen ymysg grwpiau o leiafrifoedd ethnig – er enghraifft, cyswllt sy'n gweithio gyda Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches ac sydd wedi cyfeirio myfyrwyr i'r rhaglen hon.
- (ix) Mae prif weithgarwch y Bartneriaeth, sef Prifysgol Haf Cymru, wedi ceisio denu 10% o'i gyfranogwyr o blith grwpiau o leiafrifoedd ethnig a meithrin perthynas gref ag ysgolion a cholegau yn y rhannau o'r De lle daw niferoedd uwch na'r cyffredin o'r disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r Bartneriaeth yn awr yn disgwyl cyrraedd ei tharged o 15-20% ymhlith grwpiau o leiafrifoedd ethnig.
- (x) Yn yr un modd, mae Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol PCA yn dal i feithrin cysylltiadau â Pharthau Gweithredu ar Addysg yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, a daw cyfran o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig o'r ardal honno i ddiwrnodau 'Blas ar Brifysgol' yn PCA. Yn ogystal, mae PCA yn rhwydweithio â'r rhai o leiafrifoedd ethnig sydd wedi bod yn y Brifysgol Haf ac sydd, wedi iddynt ddychwelyd i'w hen ysgolion yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, yn hybu Aberystwyth mewn ardaloedd lle ceir cyfran uwch na'r cyffredin o bobl o leiafrifoedd ethnig.
- (xi) Mae'r Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol hefyd yn rhedeg Cynllun Mentora 'Ewch Ymlaen', sef cynllun cymorth cyfoed i fyfyrwyr blwyddyn-gyntaf. Bydd y mentor yn eu helpu i ddelio ag unrhyw agwedd ar fywyd yn y Brifysgol (bywyd academiaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu ariannol), i gysylltu â'r gwasanaethau sydd ar gael i fyfyrwyr yn y Brifysgol, i daclo materion cymhelliant ac i negodi bywyd ar y Campws. Er na chynigir cymorth i fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig fel gwasanaeth ar wahân, gall fod yn feganwaith cymorth priodol y tu allan i'r adran academiaidd a helpu myfyrwyr i ymgyfarwyddo ag amgylchiadau anghyfarwydd a thaclo unrhyw broblem a allai godi.

Sefydliad Rhyngwladol:

- (xii) Mae bywyd addysgol a diwylliannol PCA yn dal i gael ei gyfoethogi'n fawr gan bresenoldeb nifer sylweddol o fyfyrwyr o'r tu hwnt i Brydain ac Ewrop, sef o ryw 90 o wledydd ar hyn o bryd. Gan fod PCA yn rhoi blaenoriaeth uchel i integreiddio'r myfyrwyr hyn i'w hadrannau, i'r Brifysgol ac i'r dref, fe fydd hi, er enghraifft, yn cynnal Diwrnodau Croesawu a digwyddiadau rhwydweithio i fyfyrwyr Ewropeaidd a Rhyngwladol. O Wlad Pwyl a Tsieina y daw'r canrannau uchaf o'r myfyrwyr hynny eleni.
- (xiii) Mae gan PCA Ymgynghorydd Rhyngwladol sy'n cynnig cyngor a chymorth cyffredinol ac, os bydd angen, bydd Canolfan Iaith a Dysgu PCA yn darparu hyfforddiant a chymorth ieithyddol. Bydd y Brifysgol hefyd yn darparu cyfleusterau i fodloni gofynion arbenigol gwahanol grefyddau, er enghraifft, mannau di-alcohol a bwydydd arbennig.
- (xiv) Bydd y Ganolfan Iaith a Dysgu yn ceisio hybu Cyfle Cyfartal yn y Brifysgol drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau. Ei hathroniaeth gyffredinol yw galluogi pob myfyriwr i gyflawni ei holl botensial, ac fe wna hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd. Yn ystod y sesiynau, bydd y rhaglen yn darparu modiwlau ar ysgrifennu academaidd i israddedigion nad yw Saesneg yn iaith frodorol iddynt, a hefyd yn cynnal gweithdai, cyrsiau byr ac ymgynghoriadau unigol ynghylch sgiliau astudio ac ysgrifennu academaidd i siaradwyr anffroddol a siaradwyr brodorol. Mae'r gwasanaeth Mynediad i Gwricwlwm Dysgu Academaidd/Gwasanaeth Dyslecsia (ALCADS) hefyd yn helpu myfyrwyr sydd â gwahaniaethau dysgu ac yn rhoi cyfleoedd iddynt drwy ddarparu profion/adroddiadau diagnostig, rhaglenni cymorth unigol, cyfarfodydd grŵp, a modiwl i israddedigion. Mae'r Rhaglen yn ystod y Sesiwn ac ALCADS ill dau yn cydreddeg â Chynllun Cymrodoriaethau'r Gronfa Lenyddol Frenhinol – cynllun sy'n talu am i dri awdur proffesiynol rhan-amser fod yn Awduron Preswyl yn y Ganolfan, a'r briff i'r tri ohonynt yw cynorthwyo gwaith ysgrifennu academaidd y myfyrwyr ar bob lefel yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- (xv) Bydd y Ganolfan Iaith a Dysgu hefyd yn rhedeg cyrsiau iaith Saesneg i fyfyrwyr rhyngwladol ar hyd y flwyddyn i'w paratoi i ddilyn cyrsiau gradd yn PCA. Yn eu plith mae Rhaglen Gyn-Sesiwn yr haf sy'n fodd i fyfyrwyr rhyngwladol godi eu sgôr yn y Saesneg i'r lefel a fyddir ar gyfer eu derbyn, ac yn eu harfogi hefyd â'r sgiliau academaidd perthnasol i astudio ym myd Addysg Uwch ym Mhrydain, rhag iddynt fod o dan anfantais o'u cymharu â myfyrwyr o Brydain.

Hyfforddiant:

- (xvi) Mae'r Swyddfa Datblygu Staff, gan gydweithio â'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb, yn dal i drefnu amrywiaeth o hyfforddiant cydraddoldeb i'r Brifysgol ac wedi cyflwyno mwy o hyfforddiant cydraddoldeb eleni na chynt. Yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb a dau hyfforddwr allanol sy'n cyflwyno'r hyfforddiant cydraddoldeb ar hyn o bryd.
- (xvii) Ym Mehefin 2005, cafwyd gwybod i 50 aelod o'r staff gael hyfforddiant ac ym Mehefin 2006 fe gododd y nifer i fwy na 80 o'r staff. Ar gyfer 2007, mae 110 o staff wedi'u hyfforddi ac mae 23 o aelodau ychwanegol o'r staff yn cael hyfforddiant penodol ynghylch Oedran ac Anabledd. Bwriedir cynnal 3 sesiwn hyfforddi pellach rhwng Mai a Mehefin 2006 i fwy na 70 o gynrychiolwyr.
- (xviii) Yn dilyn argymhellion y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb y dylai staff, er mwyn iddynt allu parhau i wasanaethu ar banel dewis, ddiweddarau eu hyfforddiant mewn cydraddoldeb ac amrywioldeb bob pedair blynedd, fe hysbyswyd y Cyngor a phob Pennaeth Adran/Is-Adran o'r gofyniad hwnnw ym mis Rhagfyr 2006. Hysbyswyd y Penaethiaid Adran hefyd o enwau'r aelodau o'r staff yr oedd angen diweddarau eu hyfforddiant. Gall cronfa ddata newydd ynghylch Datblygiad Staff, a honno'n un y gellir ei defnyddio i fonitro ethnigrwydd y staff, hefyd ddangos pa staff y bydd angen adnewyddu eu hyfforddiant cyn hir. Yn dilyn yr ymarfer hwnnw, cyflwynir amryw o sesiynau hyfforddi.
- (xix) Mae'r Swyddfa Datblygu Staff, gan gydweithio â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, wedi cynnig amrywiol sesiynau yn y Gymraeg i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y Brifysgol. Maent hefyd wedi cynnig cwrs i'r staff addysgu ar Addysgu

Myfyrwyr Rhyngwladol. Yn Atodiad A, Monitro Cydraddoldeb Hiliol 2007, ceir manylion pellach am yr holl hyfforddiant sydd wedi'i roi.

- (xx) Mae'r Swyddfa Datblygu Staff yn dal i ddosbarthu datganiad Cyfle Cyfartal – ac yndo gysylltau â gwefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb – i'w holl hyfforddwyr allanol ac i fonitro cynnwys pob cwsr.
- (xxi) Y disgwyl, bellach, yw cynnal peilot o hyfforddiant e-ddysgu dwyieithog gorfodol PCA ynghylch cydraddoldeb ac amrywioldeb i'r holl staff o Fehefin 2007 ymlaen, a hynny ar draws croestoriad cynrychioliadol o'r staff. Mae oedi wrth gyflawni'r strategaeth e-ddysgu wedi codi unwaith eto oherwydd y gwaith rhaglennu angenrheidiol wrth ddarparu rhaglen gwbl ddwyieithog. Mae PCA wedi arwain y cydweithio ar y rhaglen cyfrwng Cymraeg hon gyda 3 Sefydliad arall (Prifysgol Cymru Bangor, Prifysgol Cymru Abertawe ac Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru) ac wedi cydweithio'n agos â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn PCA.
- (xxii) Mae PCA wrthi'n datblygu strategaeth anghenion hyfforddi ar gyfer darparu'r hyfforddiant e-ddysgu hwnnw – er enghraifft, wrth adolygu'r hyfforddiant i staff sydd heb gyfrifiaduron ac anghenion dysgu penodol, wrth ymgynghori ag adrannau penodol, h.y. Penaethiaid Adran yn y Gwasanaethau Ystadau a Phreswyl, wrth sicrhau cefnogaeth Penaethiaid Adran, Rheolwyr Llinell ac ati, ac wrth ystyried yr angen i ategu'r hyfforddiant hwnnw â rhagor o hyfforddiant cydraddoldeb.
- (xxiii) Bellach, bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn cyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb i bob myfyriwr TAR cynradd ac uwchradd (rhyw 250 ohonynt) ac i adrannau penodol pan ofynnir am hynny, e.e. i'r Gwasanaethau Gwybodaeth a'r Gwasanaeth Cyngori ar Yrfaoedd. Mae hyfforddiant hefyd newydd gael ei roi i Benaethiaid Adran newydd. Fel yn y flwyddyn flaenorol, caiff hyfforddiant ei roi i Swyddogion Sabothol Urdd y Myfyrwyr a Rheolwyr Urdd y Myfyrwyr ym Mehefin 2007.
- (xxiv) Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn dal i gynorthwyo'r Rhwydwaith Aflonyddu Personol, rhwydwaith sy'n cynnig cymorth a gwybodaeth gyfrinachol i staff a myfyrwyr. Cynhelir hefyd broses o fonitro'n ddienw bob blwyddyn.

Adolygu, datblygu a monitro Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb

- (xxv) Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, un o gyd-bwyllgorau'r Cyngor a'r Senedd, wedi cyfarfod deirgwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn dal i gydlynu strategaeth cyfle cyfartal ac amrywioldeb PCA, i lunio polisiau, i fonitro gweithredu'r polisiau hynny, i gynghori ynghylch datblygiadau cyfreithiol ac i hybu/lledaenu'r arferion gorau.
- (xxvi) Mae gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb PCA Gadeirydd newydd (Is-Ddirprwy Ganghellor) ac mae PCA hefyd wedi diweddarau teitl a disgrifiad swydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb i gyd-fynd â'r anghenion a ddeilliodd o'r newidiadau yn ei rôl ac iddi fod mewn sefyllfa fwy strategol wrth adrodd i Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb.

Pwrcasu

- (xxvii) Mae Rheolwr Pwrcasu PCA yn gwbl ymwybodol o'r dyletswyddau o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ac yn defnyddio pecyn cydraddoldeb y Grŵp Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (Cydraddoldeb mewn Pwrcasu ym myd Addysg Uwch cynt) wrth bwrcasu. Mae'r broses honno'n cynnwys cael pob contractwr i lenwi holiadur cydraddoldeb y sector addysg uwch. Mae'r pecyn cydraddoldeb wedi'i ddatblygu i helpu ymarferwyr pwrcasu ym myd addysg uwch i roi sylw i'r rhwymedigaethau i hybu cydraddoldeb ym mhob un o'i swyddogaethau ac i gyflawni darpariaethau statudol y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Fe sylweddolir, serch hynny, fod angen rhaeadru'r arfer da hwn i'r adrannau eraill yn PCA sy'n pwrcasu'n annibynnol.
- (xxviii) Mae PCA yn sylweddoli bod pwrcasu'n ffordd o ddylanwadu ar gyrff eraill ac ar unigolion i adolygu eu polisiau eu hunain ar gydraddoldeb hiliol.

Y Gymraeg

- (xxix) O dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae PCA wedi mabwysiadu'r polisi o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg sy'n gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg a bydd hi'n cyflwyno adroddiadau blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg (y bwrdd statudol sy'n gyfrifol am fonitro Cynlluniau Iaith Gymraeg) i sicrhau bod pob adran a chanolfan yn y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun.
- (xxx) Y Ganolfan hefyd yw cartref Uned Gyfieithu y Brifysgol, ac mae'r uned honno'n darparu gwasanaeth i'r Sefydliad cyfan. Mae PCA yn cydnabod bod y Gymraeg yn rhan annatod o'i hymrwymiad i gydraddoldeb hiliol a bod angen dilysu a pharchu diwylliant mwyafrifol y Gymraeg a'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Y Strategaeth Dysgu ac Addysgu

- (xxxi) Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol drwy fynegi'n glir ymrwymiad y Brifysgol i ddarparu amgylchedd dysgu diogel a chynhalgar sy'n agored i bawb sy'n gymwys i elwa ohono. Fe ddywedir yn nodau'r Strategaeth, yn benodol mewn perthynas â chyfoethogi'r dysgu a'r addysgu, ei bod yn 'sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu paratoi ar gyfer eu hastudiaethau trwy arferion cyflwyno effeithiol a... bod rhaglenni a modiwlau yn briodol ar gyfer cymdeithas amryfath.'

Crynodeb: Caiff cydraddoldeb hiliol ei fewnosod a'i brif ffrydio drwy amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r adroddiad am y flwyddyn hon wedi'i helaethu i fanylu ar weithgareddau sy'n ymwneud ag iaith a Dysgu, Pwrcasu, y Cynllun Iaith Gymraeg a'r strategaeth Dysgu/Addysgu.

4. Monitro Ethnig

- (i) Fel dyletswydd benodol o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, mae gofyn i PCA fonitro derbyn a chynnydd myfyrwyr a recriwtio a hyfforddi staff yn flynyddol yn ôl grwpiau hiliol. Dadansoddir y data i weld a gaiff unrhyw grwpiau ethnig penodol eu tangynrychioli ac a oes unrhyw rwystrau sefydliadol rhag cyfranogi y gellid eu dileu. Daw'r categorïau penodol o ddata o god ymarfer statudol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac mae dadansoddiad o'r data a goladwyd i'w gael yn Atodiad A, Monitro Cydraddoldeb Hiliol 2007.
- (ii) Fel yn yr adroddiadau blaenorol, mae data wedi'u coladu ynghylch cyfansoddiad hiliol y staff a gyflogir gan y Brifysgol, a chyfansoddiad hiliol y corff o fyfyrwyr, er mwyn sefydlu llinell waelod. Dros y blynyddoedd blaenorol, prin iawn fu'r sôn am y data a goladwyd, ac mewn ymateb i'r gwerthusiadau diweddar gan Bartneriaeth John Gus a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, mae adroddiad eleni'n cynnwys ymarfer helaethach i gasglu data, fel y dangosir gan Atodiad A, Monitro Cydraddoldeb Hiliol 2007. Mae'r ymarfer hwnnw wedi helpu i dynnu sylw at y data y mae angen eu darparu ac ymhelaethu arnynt.
- (iii) Yn ddiweddar, mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi penodi i swydd newydd, sef swydd Rheolwr TG, a bydd hynny'n helpu'r prosesau o gasglu data. Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb eisoes wedi cael trafodaethau gyda'r Rheolwr TG i roi darlun clir o'r dyletswyddau monitro o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) ac i ystyried ffyrdd o ddatblygu ac awtomeiddio'r prosesau monitro – er enghraifft, monitro prosesau recriwtio ceisiadau (a wnaed â llaw eleni) a'r posibilrwydd y gallai'r staff ddiweddarau eu data personol eu hunain.
- (iv) Mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi dal i fireinio a diweddarau'r data am y staff, gan gynnwys diweddarau'r meysydd data ar ethnigrwydd a chenedligrwydd – gwaith sydd wedi'i hwyluso hefyd gan y gofyniad i gyflwyno adroddiadau i Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (yr HESA). Mae'r Swyddfa Datblygu Staff hefyd wedi diweddarau eu cronfa ddata ynghylch datblygiad staff, a gall y gronfa ddata honno yn awr fonitro ethnigrwydd y staff sy'n cael hyfforddiant.

- (v) Mae'r ffynonellau mewnol o wybodaeth ar gyfer adroddiad 2006-07 yn cynnwys y Gwasanaethau Gwybodaeth Reoli, yr Adran Adnoddau Dynol, y Swyddfeydd Datblygu Staff, Derbyn a Denu, y Swyddfa Academaidd, y Rhwydwaith Aflonyddu, Urdd y Myfyrwyr, Datblygu a Materion Allanol, Cynghori ar Yrfaedd, y Consortiwm Rhyngwladol, Iaith a Dysgu, Pwrcasu, Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori a Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg. Mae'r ffynonellau allanol yn cynnwys Cyfrifiad Cenedlaethol 2001, Awdurdodau Lleol, Heddlu Dyfed-Powys, Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (yr HESA) ac UCAS.
- (vi) **Monitro myfyrwyr:** Dangosodd data 2004-05 mai cyfanswm y boblogaeth o fyfyrwyr cartref, myfyrwyr o'r UE a myfyrwyr rhyngwladol oedd 9,263, a chofnodwyd bod 453 o'r israddedigion a 352 o'r myfyrwyr uwchraddedig yn dod o gefndir ethnig. Dyna 8.69% o gorff y myfyrwyr. Mae data 2005-06 yn dangos bod yma gorff o 9169 o fyfyrwyr israddedig/uwchraddedig, bod 297 o'r myfyrwyr (3.24%) o darddiad croenddu neu'n dod o Leiafrifoedd Ethnig a bod cyfanswm o 434 (4.73%) o fyfyrwyr israddedig ac uwchraddedig tramor o gefndir croenddu neu'n dod o Leiafrifoedd Ethnig. Mae'r myfyrwyr Cartref a Thramor sydd o gefndir croenddu neu'n dod o Leiafrifoedd Ethnig yn 7.97% o gyfanswm poblogaeth y myfyrwyr. Ceir rhagor o fanylion y monitro yn Atodiad A, Monitro Cydraddoldeb Hiliol 2007.
- (vii) Mae cyfradd y cynigion yn y Sefydliad yn gyffredin ar draws yr holl grwpiau ethnig. Nid oes tystiolaeth o wrthod ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig ar raddfa anghymesur.
- (viii) **Monitro staff:** Yn 2005, cofnodwyd bod 3.5% o'r staff yn dod o gefndir croenddu, o Leiafrifoedd Ethnig neu o gefndiroedd cymysg, ac yn 2006, cofnodwyd bod 3.86% o'r staff yn dod o gefndir croenddu, o Leiafrifoedd Ethnig, o gefndir cymysg neu o gefndir 'croenwyn arall'. Ar gyfer 2007, nodir bod 3.5% o'r staff yn dod o gefndir croenddu neu o Leiafrifoedd Ethnig a bod 1.4% arall o'r staff o gefndiroedd croenwyn eraill. Cyfanswm hynny yw bod 4.9% o'r staff yn dod o leiafrifoedd ethnig, sef cynnydd o'i gymharu â ffigur y llynedd. Ceir rhagor o'r manylion yn Atodiad A, Monitro Cydraddoldeb Hiliol 2007.
- (ix) Mae staff sy'n dod o leiafrifoedd ethnig yn dal i fod wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws system raddio PCA ac mae cynifer o staff o leiafrifoedd ethnig ar lefelau hŷn ag sydd ar lefelau llafurol/atodol.
- (x) **Cymaryddion demograffig:** Fel yn yr adroddiadau blaenorol, mae cyfrifiad 2001 yn cofnodi bod 1.4% o boblogaeth Ceredigion yn dod o leiafrifoedd ethnig. Mae hynny'n cymharu â 2.1% ar gyfer Cymru a 7.9% ar gyfer y DU gyfan. Yn Aberystwyth ei hun, oherwydd lleoliad y Brifysgol a'r ysbyty, y mae'r prif grynodiad o leiafrifoedd ethnig yng Ngheredigion.
- (xi) Yn Ebrill 2007, fe aeth Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, sy'n gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg, ati i anfon Holiadur Sgiliau Ieithyddol at 1900 o aelodau o'r staff i ddarganfod pa lefel o allu sydd ganddynt o ran deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn ogystal â'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cofnodwyd bod rhyw 19% o'r staff yn rhugl eu Cymraeg a bod 5% o'r aelodau o'r staff wrthi'n addysgu neu'n hyfforddi yn Gymraeg, er bod cyfanswm o 9% yn medru gwneud hynny.
- (xii) Mae PCA yn gweithio ar amrywiaeth o weithgareddau trydedd-genhadaeth ac yn darparu amrywiol gynlluniau cymorth-i-fentrwyr sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol neu'n cael eu datblygu drwyddi. Caiff ethnigrwydd y staff a'r myfyrwyr sy'n manteisio ar y gweithgareddau hynny (e.e. y Gronfa Datblygu Gwybodaeth, Rhaglen Ddeillio Cymru, Graduating to Enterprise, Crialis Incubator) eu monitro drwy'r Cynulliad Cenedlaethol. O'r 49 o bobl ar gynllun penodol, cofnodwyd bod 40 o'r myfyrwyr/staff yn dod o'r DU/Iwerddon, 4 o Ewrop a 5 o dramor.
- (xiii) Bydd PCA yn ceisio dal i gynyddu'r ganran o bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n ymgeisio am leoedd myfyrwyr a chyfleoedd staff.

Crynodeb: Mae cymariaethau o ran y staff a'r myfyrwyr, a chymariaethau demograffig, yn dangos cynnydd yn nifer y staff o leiafrifoedd ethnig yn 2007 ac ychydig bach o ostyngiad yn nifer y myfyrwyr yn 2005-06.

5. Casgliadau

- (i) Mae PCA yn dal i fod wedi ymrwymo'n llawn i ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal a hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol fel y pennwyd o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.
- (ii) Mae PCA yn sylweddoli bod cydraddoldeb hiliol nid yn unig yn ofyniad cyfreithiol ond hefyd yn rhan o'i dyletswydd foesol fel darparwr addysg. Mae cydraddoldeb hiliol wedi bod yn rhan flaenllaw o'r datblygu ar fframwaith cydraddoldeb PCA ac mae cryn gynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
- (iii) Mae PCA yn cydnabod bod angen gwella ac ailddiffinio'i gweithgareddau i gyflawni rhagor ar ei hymrwymiad a'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Mae hi hefyd yn ceisio datblygu ymagwedd 'aml-linyn' at gydraddoldeb a phlethu cydraddoldeb hiliol i linyddau eraill o gydraddoldeb tra disgwylir gweld sefydlu Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac yng ngoleuni ei hymrwymiad i'r agenda ynghylch Ehangu Cyfranogiad.
- (iv) Yn dilyn yr adolygiadau gan Bartneriaeth Gus John a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, bydd PCA yn ceisio gweithio i ailddiffinio'i dyletswydd i sicrhau cydraddoldeb hiliol. Ym mis Mai 2007 fe gynhaliwyd gwell ymarfer cynhwysfawr i gasglu data ac mae ymarfer sgrinio PCA i Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb eisoes wedi cychwyn.
- (v) Yn ddiweddar, mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi cyflogi Rheolwr TG sydd wrthi'n ceisio ailddiffinio ac awtomeiddio mecanweithiau monitro'r staff.
- (vi) Mae rhagor o hyfforddiant wedi'i ddarparu neu ar y gweill eleni nag a fu cynt – er enghraifft, hyfforddi aelodau paneli dewis a chyflwyno rhaglen e-ddysgu ddwyieithog orfodol ar amrywioldeb i'r holl staff. Mae PCA wrthi hefyd yn cynllunio rhagor o hyfforddiant mewn cydraddoldeb i ateb anghenion dysgu penodol.
- (vii) Mae PCA yn dal i weithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid a sefydliadau allanol i gydweithio ac i rannu arferion da ym maes cydraddoldeb hiliol.